# Fframwaith Adfywio Ardal Ni

CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL BRO PERIS



Tachwedd 2024


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer ardal Bro Peris.




Ardaloedd Adfywio Lleol
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llyn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes  - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD



Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol, ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cyd-berchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU 'ARDAL NI' 03

Bwriad ymgyrch Ardal Ni oedd cynnal sgwrs hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd â mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 23 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 312 o ymatebion o ardal Bro Peris drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd :
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

04

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28  tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth


Cynllun
Cyngor Gwynedd
2023-28

GWYNEDD YFORY
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

GWYNEDD LEWYRCHUS
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

GWYNEDD GLYD
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

GWYNEDD OFALGAR
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

GWYNEDD GYMRAEG
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

GWYNEDD WERDD
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

GWYNEDD EFFEITHLON
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

## Cynllun Eryri




Cynllun Rheolaeth Statudol sydd wedi ei ddatblygu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn partneriaeth gyda ystod o bartneriaid sydd yn canolbwyntio ar dri maes, sef

**Amgylchedd**
**Iechyd, Lles a Chymunedau**
**Economi Eryri**

## Awdurdodau Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031)

# ARDAL BRO PERIS HEDDIW

05



Mae Ardal Bro Peris wedi ei leoli wrth galon Eryri gyda'r Wyddfa yn ganolbwynt. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ardaloedd Waunfawr, Caeathro, Llanrug, Cwm-Y-Glo, Llanddeiniolen, Llanberis, Nant Peris, a Betws Garmon.

## Crynodeb Ardal Bro Peris mewn Ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **83** – disgwyliad oes merched yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 82.3
- **79** – disgwyliad oes dynion, yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 78.3
- **11.3%** plant yn ordew, ychydig is na chyfartaledd Cymru (11.8%)
- **81%** yn siarad Cymraeg, llawer uwch na'r ffigwr ar gyfer Gwynedd sef 65.3%
- **87%** oedolion â chymhwyster, yr uchaf yng Ngwynedd
- **82%** mewn cyflogaeth, uwch na chyfartaledd Cymru o 75%
- **£29,563** – canolrif incwm aelwydydd, uwch na'r ffigwr Cymru o £26,3

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **85%** o gartrefi gyda mynediad i band llydan, is na'r ffigwr Cymru o 93.1%
- **5%** o dai yn gartrefi gwyliau, uwch na chyfartaledd Cymru (3%) ond is na cyfartaledd Gwynedd (11%)

*(Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad. (223)
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (197)
- Treftadaeth a hanes gyfoethog yr ardal (156)
- Mae'n ardal ddiogel (129)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal (116)
- Adnoddau iechyd yr ardal (112)
- Darpariaeth addysg ac ysgolion da (87)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth (74)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni Bro Peris. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*


### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?

- Parcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal (172)
- Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal (167)
- Trafnidiaeth gyhoeddus (137)
- Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol (98)
- Diffyg swyddi cyflog uchel (98)
- Nifer o dai mewn cyflwr gwael a diffyg tai fforddiadwy (84)
- Gweithgareddau i bobl ifanc ac i bobl hŷn (83)
- Tlodi a chostau byw uchel (77)
- Annog pobl ifanc i fod yn rhan o bwyllgorau lleol a cynghorau cymuned (66)
- Economi leol a cefnogaeth i fusnesau (64)
- Diffyg llwybrau cerdded a beicio (63)

# ARDAL BRO PERIS YMHEN 15 MLYNEDD

06

Mae’r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ‘Ardal Ni’. Mae’r materion wedi eu gosod yn ôl y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda’r materion a rhestrir gael eu hadnabod gan o leiaf 1 allan o 5 ymateb.



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

### Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Bro Peris dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i sicrhau tai sy’n addas i anghenion pobl lleol | 143 |
| 2 | Cyflwyno deddfwriaeth i reoli’r maes tai haf ac ail-gartrefi yn effeithiol | 143 |
| 3 | Cynlluniau i wella rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobl leol | 118 |
| 4 | Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy’n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal | 103 |
| 5 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau’r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 88 |
| 6 | Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio | 87 |
| 7 | Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal – strydoedd glan, mwy o finiau, blodau stryd ac ati | 87 |
| 8 | Cynlluniau i gefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel | 82 |
| 9 | Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | 81 |
| 10 | Cynlluniau i ddarparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc a hŷn | 78 |
| 11 | Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy’n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant ac sy’n cefnogi dysgwyr yr iaith | 63 |

# CYNLLUN GWEITHREDU

07

Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol.

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol** | 1.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-5 |
| | 1.2 | Prosiect Tai Dan Arweiniad y Gymuned ar gyfer Dyffryn Peris | Partneriaeth Dyffryn Peris | - | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B2. Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol** | 2.1 | Gwynedd Glyd – Premiwm Treth Cyngor | Cyngor Gwynedd | - | Cynllun Sirol sydd yn weithredol | Bl 1-2 |
| | 2.2 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Cyngor Gwynedd | Ardal Cynllunio Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-3 |
| | 2.3 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Ardaloedd o fewn y Parc Cenedlaethol | Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym o'r 1 Mehefin 2025 | Bl 1-3 |
| **B3. Cynlluniau i wella rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobl leol** | 3.1 | Cynllun Cludiant Gogledd Eryri | Parc Cenedlaethol Eryri | Grŵp Cludiant Gogledd Eryri | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.2 | Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 | Cyngor Gwynedd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.3 | Gwelliannau Maes Parcio'r Glyn | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B4. Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal** | 4.1 | Cynllun Cludiant Gogledd Eryri | Parc Cenedlaethol Eryri | Grŵp Cludiant Gogledd Eryri | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 4.2 | Gwynedd Werdd – Trafnidiaeth Cyhoeddus | Cyngor Gwynedd | Grŵp Cludiant Gogledd Eryri | Cynllun Sirol - rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 4.2 | Hwb Trafnidiaeth Integredig | Trafnidiaeth Cymru | Cyngor Gwynedd, APCE | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B5. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed, ac ati.** | 5.1 | GwyrddNi: Dyffryn Peris | Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedo | DEG | Gweithredol | Bl 1-4 |
| | 5.2 | Prosiect Natur Llanddeiniolen | Pwyllgor Prosiect Tyfu | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.3 | Cynllun Bwyd Llanrug a Cwm y Glo | Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.4 | Cynllun Bwyd Lleol | Antur Waunfawr | Grwpiau ac ysgolion lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.5 | Gwyrfai Gwyrdd | Grŵp Llywio Gwyrfai Gwyrdd | Grwpiau Lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B6. Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio** | 6.1 | Teithio Llesol | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Cynllun Sirol - rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| **B7. Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal – strydoedd glan, mwy o finiau, blodau stryd ac ati** | 7.1 | Gwynedd Lewyrchus – Canol Trefi | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Grŵp Adfywio Llanberis | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 7.2 | Pecyn eiddo gwag canol tref | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Grantiau (£5k - £25k) yn weithredol | Bl 1-2 |
| | 7.3 | Cymunedau Glan a Thaclus | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Rhaglen o welliannau amgylcheddol yn weithredol | Bl 4 |
| **B8. Cynlluniau i gefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel** | 8.1 | Ail Ddatblygu Amgueddfa Llechi Cymru | Amgueddfa Cymru | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 8.2 | Marchnad Leol | Grŵp Datblygu Llanberis | Busnesau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.3 | Safle Glyn Rhonwy | Cyngor Gwynedd | Busnesau a datblygwyr preifat | Datblygol | Bl 3-5 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8.4 | Gwynedd Lewyrchus: Cronfa Datblygu Busnes | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth DU | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 8.5 | Gwasanaeth cymorth Busnes Cymru | Busnes Cymru | Cwmpas | Weithredol | Bl 1-3 |
| | 8.6 | Cynlluniau sirol megis Ailwefru, Dyfodol Digidol, Prynu'n lleol, Ffiws, Arfor | Darparwyr amrywiol | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B9. Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy** | 9.1 | Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 | Cyngor Gwynedd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 9.2 | Llewyrch o'r Llechi – Gwelliannau Gilfach Ddu | Cyngor Gwynedd | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B10. Cynlluniau i ddarparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc a hŷn** | 10.1 | Hwb Cefnogi Pobl | Menter Fachwen | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 10.2 | Celfyddydau, Syrcas a Digwyddiadau | Circo Arts yn Y Festri | Cyngor Gwynedd; Actif Gogledd Cymru; Grid Cenedlaethol; ysgolion lleol | Gweithredol | Bl 6 |
| | 10.3 | Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen | Pwyllgor CPD Ieuenctid Deiniolen | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 10.4 | Hwb Cymuned Deiniolen | Caban Cynfi | Grwpiau a mentrau Deiniolen | Gweithredol | Bl 1-3 |
| | 10.5 | Caffi Perthyn Bethel | Pwyllgor Caffi Bethel | Grwpiau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 10.6 | Caffi Ebs Deiniolen | Pwyllgor Pentra Deiniolen | Menter Fachwen | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 10.7 | Adeilad Hen Lyfrgell Deiniolen | Pwyllgor Pentra Deiniolen | Grwpiau lleol | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 10.8 | Neuadd Bentref Rhiwlas | Pwyllgor Neuadd Rhiwlas | Grwpiau lleol | Gweithredol | |
| **B11. Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith** | 11.1 | Llechi Lleni | Cyngor Gwynedd | Loteri Cenedlaethol, Grŵp Llechi Lleol | Gweithredol | Bl 1 |
| | 11.2 | Rhaglen STYB Llechi Cymru | Cyngor Gwynedd | Grŵp Llechi Cymru, Amgueddfa Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 11.3 | Gweithgareddau presgripsiwn cymdeithasol, datblygu sgiliau | Amgueddfa Cymru | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 11.4 | Paned i'r Blaned | Gwyrdd Ni | A. Bierd | Gweithredol | Bl 1 |

# CYDLYNU A MONITRO



Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella Ardal Bro Peris. Mae hyn yn cynnwys manylion yr holl Gynghorau Cymuned, Grwpiau Cymunedol Cyfansoddiadol, Elusennau a Chwmnïau Buddiant Cymunedol isod.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu yn ardal Bro Peris, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol. Partneriaeth Dyffryn Peris ydy'r corff cynrychioladol i fonitro cyflawniad y Cynllun Adfywio Lleol.

Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.  Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.

- Cyngor Cymuned Betws Garmon
- Cyngor Cymuned Llanberis a Nantperis
- Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
- Cyngor Cymuned Llanrug a Cwm y Glo
- Cyngor Cymuned Waunfawr a Caeathro
- Grŵp Datblygu Llanberis
- Y Festri a Circo Arts
- Ymddiriedolwyr Caban Pentra Deiniolen
- Pwyllgor Pentra Deiniolen
- Menter Fachwen
- Menter Cymunedol Bethel - Caffi'r Bedol
- Antur Waunfawr
- Ynni Padarn Peris
- Prosiect Gwyrdd Ni
- Grŵp Tacluso Llanberis
- Ffrindiau'r ddol Llanberis
- Grŵp Cymunedol Brynrefail
- Cyfeillion Eglwys Sant Padarn
- Incredible Edible Rhiwlas
- Cyfeillion Rhiwlas
- Tŷ'r Ysgol Rhyd ddu
- Caban Brynrefail
- Y Ganolfan Llanberis
- Neuadd Goffa Waunfawr
- Neuadd Rhiwlas
- Neuadd Goffa Llanrug
- Neuadd Gymuned Penisarwaun
- Neuadd Goffa Bethel
- Clwb Pel Droed Llanrug
- Clwb Pel Droed Llanberis
- Clwb Pel Droed Bethel
- Pwyllgor Parc Chwarae Bethel
- Clwb Pel Droed Plant Deiniolen
- Eco'r Wyddfa
- Tyddyn Teg
- Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro
- Elusen Ynni Dyffryn Peris
- Clwb Snwcer Waunfawr
- Partneriaeth Dyffryn Peris